



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Enwebu gweithiwr gofal ar gyfer Gwobrau 2023

Am enwebu gweithiwr gofal unigol ar gyfer Gwobrau 2023?  
Darllenwch ymlaen i ddarganfod sut.

First published: 21 September 2022

Last updated: 25 September 2022

This document was downloaded from [socialcare.wales](https://socialcare.wales) and may not be the latest version.  
Go to <https://scw-new-cy.nitro/y-gwobrau/enwebu-gweithiwr-gofal-ar-gyfer-gwobrau-2023> for the latest version.

Am enwebu gweithiwr gofal unigol ar gyfer Gwobrau 2023? Darllenwch ymlaen i ddarganfod sut.

## Pwy ellir gael ei enwebu?

Mae'r Gwobrau ar gyfer gweithwyr unigol yn agored i unrhyw weithiwr gofal cyflogedig, wirfoddolwr neu prentis sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu ofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Gallant weithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu gydweithredol, ac mewn unrhyw rôl. Gallent, er enghraifft, weithio mewn cartref gofal, meithrinfa neu fel gweithiwr gofal cartref. Gallant weithio gyda phlant, oedolion, teuluoedd neu ofalwyr.

Rydyn ni'n chwilio am weithwyr sydd nid yn unig yn cyflawni eu tasgau beunyddiol ond yn mynd y tu hwnt i ofyniad eu rôl ac sydd wir yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Disgwylir i bob gweithiwr sydd wedi'i enwebu am Wobr fodloni safonau ymddygiad ac ymarfer gweithwyr gofal cymdeithasol fel y nodir yn y [Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#) (y Côd).

## Pwy all enwebu gweithiwr gofal?

Unrhyw un sy'n gyfarwydd â gwaith y gweithiwr gofal ac sy'n gallu sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl trwy'r gofal a chymorth maen nhw'n eu darparu.

Gallwch enwebu rhywun ar gyfer gwobr os ydych:

- gweithio gyda, hyfforddi neu gyflogi'r person yr ydych am ei enwebu
- yn derbyn gofal neu gefnogaeth gan y person rydych am ei enwebu
- yn ofalwr, ffrind neu aelod o deulu rhywun sy'n derbyn gofal a chymorth.

Ni allwch enwebu rhywun rydych chi'n perthyn yn agos iddyn nhw neu rhywun rydych chi mewn perthynas bersonol â hwy.

Ni fyddwn yn derbyn enwebiadau ar gyfer mwy na dau aelod o staff o'r un gweithle neu sefydliad.

## Sut mae enwebu gweithiwr gofal?

Mae'n hawdd enwebu gweithiwr gofal. Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw:

- lawrlwythwch y ffurflen gais ar gyfer y categori y byddwch yn ymgeisio amdano isod
- darllen y ffurflen a'r canllaw hwn cyn i chi ei llenwi
- darllen y rheolau mynediad a'r telerau ac amodau
- gofyn i'r gweithiwr gofal am eu caniatâd i'w henwebu
- llenwi'r ffurflen enwebu
- anfon y ffurflen wedi'i chwblhau atom yn [gwobrau@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwobrau@gofalcymdeithasol.cymru) erbyn **5pm ar 2 Tachwedd 2022**.

Peidiwch ag anfon unrhyw beth heblaw eich ffurflen enwebu wedi'i chwblhau – ni fydd y beirniad yn ystyried unrhyw ddeunyddiau ychwanegol fel lluniau neu fideos.

[Gwobr arweinyddiaeth effeithiol - ffurflen enwebu](#)

DOCX 343KB

[Gwobr Gofalwn Cymru - ffurflen enwebu](#)

DOCX 342KB

## Y beirniadu

Bydd ein panel o feirniad yn ystyried ac yn llunio rhestr fer o'r holl enwebiadau a dderbyniwn. Yna byddant yn cwrdd ganol mis Rhagfyr i benderfynu ar y rheini sy'n cyrraedd y rownd derfynol.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi a'ch enwebai erbyn 10 Ionawr 2023 os byddant wedi cyrraedd y rownd derfynol.

Cyhoeddir enw'r enillydd yn seremoni'r Gwobrau ym mis Ebrill 2023.

## Y rheolau cystadlu

Dyma'r rheolau i ymgeisio ar gyfer gwobrau gweithwyr gofal unigol ar gyfer Gwobrau 2023:

### Cyffredinol

- Mae mynediad am ddim
- Mae'r Gwobrau ar gyfer gweithwyr unigol yn agored i unrhyw weithiwr gofal cyflogedig, wirfoddolwr neu prentis sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar
- Rhaid i weithwyr gofal a gaiff eu henwebu weithio yng Nghymru
- Rhaid bod y gwaith rydych chi'n cyfeirio ato ar y ffurflen enwebu fod wedi cael ei wneud ers mis Tachwedd 2021
- Ni allwch enwebu rhywun rydych chi'n perthyn yn agos iddo – er enghraifft, ni allwch enwebu'ch gwraig, gŵr, mab neu ferch – neu rywun rydych chi mewn perthynas bersonol â hwy
- Ni fyddwn yn derbyn enwebiadau ar gyfer mwy na dau aelod o staff o'r un gweithle neu sefydliad mewn unrhyw un categori
- Rhaid i'r gweithiwr gofal rydych yn ei enwebu weithio yn unol â'r safonau ymddygiad ac ymarfer a nodir yn y [Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#)
- Ni fyddwn yn derbyn unrhyw enwebiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad a'r amser cau ( **5pm ddydd Llun, 2 Tachwedd 2022**).

### Eich enwebiad

- Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen enwebu
- Rhaid i chi gadw at y terfyn geiriau – ni fyddwn yn ystyried unrhyw enwebiadau sy'n mynd dros y terfyn geiriau
- Dim ond yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen enwebu y bydd y beirniaid yn ei hystyried ac ni fyddant yn ystyried unrhyw ddeunydd ychwanegol, fel lluniau neu fideos

- Rhaid i chi ddarparu manylion cyswllt llawn ar eich cyfer chi a'r person rydych chi'n ei enwebu
- Rhaid i chi sicrhau bod gennych ganiatâd yr unigolyn rydych chi'n ei enwebu i'w henwebu cyn cyflwyno'r ffurflen
- Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni ar y ffurflen enwebu i hyrwyddo'r Gwobrau
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich enwebiad erbyn Ionawr 2023
- Ni fyddwn yn gallu dychwelyd y ffurflen enwebu atoch chi.

## Telerau ac amodau

Dylech wneud yn siŵr eich bod chi a'r person rydych chi'n ei enwebu wedi darllen ac yn deall y telerau ac amodau cyn i chi anfon eich enwebiad atom:

### Cyhoeddusrwydd

Rhaid i chi a'r person rydych chi'n ei enwebu gytuno y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen enwebu i:

- hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gwobrau
- rhannu ymarfer nodedig o bwys a helpu eraill i ddysgu yn y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar.

Byddwn yn gwneud ffilm fer o'r holl gystadleuwyr yn y rownd derfynol, a fydd yn cael ei dangos yn y seremoni wobrwyo.

Bydd y ffilmio yn debygol o ddigwydd rhwng Ionawr a Chwefror 2023, a bydd disgwyl i'r holl gystadleuwyr yn y rownd derfynol fod ar gael ar gyfer y ffilmio. Byddwn yn anfon mwy o wybodaeth am y ffilmio at y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol ym mis Ionawr 2023.

Gallai'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol dderbyn cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru.

### Beirniadu

Bydd ein panel beirniadu yn sgorio'r holl enwebiadau a dderbyniwn ac yn penderfynu pwy fydd yr enillydd a'r rheini fydd yn cyrraedd y rownd derfynol. Dim ond un enillydd fydd ym mhob categori.

Rhaid i aelodau'r panel beirniadu beidio â bod ag unrhyw gysylltiad â'r gweithwyr gofal a enwebwyd ar gyfer y Gwobrau.

Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni fyddwn yn gohebu ynghylch eu penderfyniad.

## Y seremoni a'r gwobrau

Bydd enillydd pob categori yn cael tlws a bydd pawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael dystysgrif. Ni fydd unrhyw wobrau ariannol na chyfwerth.

Bydd pawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael eu gwahodd i fynychu seremoni wobrwyo'r Gwobrau ym mis Ebrill 2023. Os na all y sawl sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol fynychu'r seremoni, bydd angen iddynt roi gwybod i ni ymlaen llaw a dweud wrthym pwy fydd yn derbyn y wobr neu'r dystysgrif ar eu rhan.

Bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael gwybod faint o leoedd fydd ganddyn nhw yn y seremoni wobrwyo. Bydd unrhyw un sy'n mynychu'r seremoni yn gyfrifol am eu costau teithio a llety eu hunain.

Os byddwn yn darganfod bod rhywun sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol neu eu henwebydd wedi torri'r rheolau – cyn neu ar ôl cyflwyno Gwobr – gall y beirniaid wahardd y gweithiwr. Os digwydd hyn, rhaid dychwelyd y tlws a'r dystysgrif atom ar unwaith.

## Dyddiadau pwysig i'w nodi

- **Dyddiad cau enwebiadau:** 5pm, 2 Tachwedd 2022 – ni fyddwn yn derbyn unrhyw enwebiadau ar ôl y dyddiad cau
- **Cyhoeddi enwau'r gweithwyr gofal unigol sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:** 11 Ionawr 2023
- **Ffilmio rownd derfynol gweithwyr gofal unigol:** 30 Ionawr i 17 Chwefror 2023
- **Seremoni wobrwyo:** Ebrill 2023